**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 RHAGFYR, 2021**

**Yn NEUADD BENTREF RHYDLEWIS, RHYDLEWIS am 7.30 p.m.**

**Yn bresennol** Cyng. Emyr Jones (cadeirydd)
Cyng. Mark Davies
Cyng. Sharon Thomas
Cyng. Robert Jones
Cyng. Ceri Jones
Cyng. Maldwyn Lewis
Cyng. Siân Williams

**Ymddiheuriadau** Cyng. Julie Davies; Cyng. Llŷr Evans a Chyng. Teifi Evans.

**Clerc** Margaret Jones

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Julie Davies, Llŷr Evans a Teifi Evans. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | | |
| 3 | Cofnodion Cyfarfod mis Tachwedd. | Roedd yr holl Gynghorwyr wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Tachwedd. | | |
| 4. | Materion yn Codi | Ynghylch y diffibrilwyr ar gyfer clwb pêl-droed Ffostrasol a Bwlch-y-groes – roedd Cyng. Mark Davies wedi gwneud ymholiadau gyda chynrychiolwyr y ddau leoliad ac roedd y ddau yn fodlon pe byddai modd i'r Cyngor Cymuned drefnu darpariaeth y diffibrilwyr, y byddent ar gael at ddefnydd y cyhoedd.<br><br>O ran y coed Nadolig – rhoddwyd y rhain gan deulu Cyng. Sharon Thomas.<br><br>Roedd Cynghorwyr Mark Davies ac Emyr Jones wedi mynychu cyfarfod Zoom gyda Chyngor Sir Ceredigion ar 26 Tachwedd 2021, gan gynrychioli Cyngor Cymuned Troedyraur. Adroddont bod gwasanaeth CLIC yn gorfod delio gyda materion niferus ar hyn o bryd, felly bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sefydlu gwasanaeth newydd cyn bo hir, y bydd y cyhoedd yn gallu manteisio arno er mwyn adrodd am faterion. Enwau'r rhain fydd Porth Cymorth, Porth Cynnal a Phorth Gofal. Anfonir gwybodaeth ymlaen i'r Cynghorau Cymuned maes o law.<br>Adroddwyd yn y cyfarfod hefyd bod ffosffadau yn broblem fawr yn y sir o hyd.<br>Yn ogystal, ers gadael Ewrop, byddai llai o arian ar gael gan y gronfa Ewropeaidd, ond dylid fod modd manteisio ar fwy o Lundain. | | |

| | | |
|---|---|---|
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Sharon Thomas bod cofnodion mis Tachwedd yn gywir, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Mark Davies. |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Ymddiheurodd Cyng. Maldwyn Lewis na fu'n bresennol yn ystod y cyfarfodydd blaenorol. O ganlyniad i'r tywydd gwael dros yr wythnosau diwethaf, adroddodd bod trefi fel Aberaeron, Aberystwyth ac Aberteifi wedi dioddef problemau llifogydd unwaith eto, felly mae angen neilltuo arian yn y dyfodol ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd.<br><br>Adroddodd Cyng. Lewis hefyd bod yr amrywiolyn Covid newydd yn cynyddu yn yr ardal, a bod un ysgol yng Ngheredigion eisoes ar gau oherwydd salwch. Pwysleisiodd ei bod hi'n bwysig ein bod oll yn ofalus iawn, gan gadw at y rheolau ynghylch covid er mwyn cadw ein cymuned yn ddiogel.<br><br>Adroddodd Cyng. Lewis hefyd y trafodwyd gwasanaethau newydd Porth Cymorth, Porth Cynnal a Phorth Gofal yn y Cabinet heddiw, ac y byddai Porth Gofal yn cynnig Cartref Gofal i blant a phobl ifanc yng Ngheredigion, fel y byddai'r plant a'r bobl ifanc hyn yn gallu aros yn eu Sir eu hunain. Nid yw'r lleoliad yn hysbys eto.<br><br>Cynhelir etholiadau ym mis Mai 2022 – anfonir y manylion ymlaen yn y Flwyddyn Newydd. |
| 7. Gohebiaeth | | Cafwyd poster yn y post gan 'Caru Cymru' yn hysbysu'r cyhoedd o beryglon baw cŵn. Gosodir y posteri hyn yn y blychau cymunedol. **Clerc**<br><br>Cafwyd rhaglen Eisteddfod Neuadd Rhydlewis. Bydd hwn yn ddigwyddiad digidol a gynhelir ar ddydd Sadwrn 26 Chwefror, 2022.<br><br>Cafwyd llythyr gan Gyngor Sir Ceredigion yn ein hysbysu o'r ffaith yr anfonir ffurflenni Praesept 2022/2023 ymlaen i bob Cyngor Cymuned yn gynnar ym mis Rhagfyr. |
| 9. Cynllunio | | Ni chafwyd unrhyw geisiadau cynllunio erbyn dyddiad y cyfarfod. |
| 10. Ariannol | | **Ymchwiliad Archwilio** – nid oedd y Clerc wedi cael unrhyw ohebiaeth erbyn cyfarfod mis Rhagfyr. Bydd y clerc yn anfon e-bost yn gofyn am ddiweddariad cyn y cyfarfod ym mis Ionawr. **Clerc**<br><br>Roedd Cyng. Maldwyn Lewis wedi siarad gyda Mr. Gwyn Jones ac mae wedi cytuno ystyried y gwaith papur perthnasol a'n cynorthwyo gyda'r gwaith Archwilio. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Clerc blaenorol (Mrs. L. Williams) er mwyn holi am yr hyn a anfonwyd ymlaen at y Swyddfa Archwilio, yna bydd y Clerc a'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Cadeirydd blaenorol yn coladu'r gwaith papur yn barod ar gyfer archwiliad mewnol.<br><br>**Llofnodwyr NatWest** – Adroddodd y Clerc ei bod hi wedi ceisio llenwi'r ffurflenni Gorchymyn ar-lein sawl gwaith yn ystod y mis diwethaf, ond na allai agor y ffurflenni ar y gliniadur er mwyn cofnodi'r manylion perthnasol gofynnol. Felly, penderfynwyd llenwi'r copïau papur a mynd â nhw i Fanc NatWest Caerfyrddin cyn gynted ag y bo modd. **Clerc** |

**Diffibrilwyr** – Roedd pawb a oedd yn bresennol o blaid gosod diffibrilwyr yng nghlwb pêl-droed Ffostrasol ac ym Mwlch-y-groes (i'w leoli yn festri y capel). Fodd bynnag, soniwyd y gallai fod grant ar gael gan Gyngor Chwaraeon Cymru er mwyn cynorthwyo wrth brynu un ar gyfer clwb pêl-droed Ffostrasol – bydd Cyng. Siân Williams yn gwneud ymholiadau.
O ran un ar gyfer pentref Bwlch-y-groes, bydd Cyng. Maldwyn Lewis yn holi Mr. Emyr Jones ac yn adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf.

**Taliadau** CThEM - £43.60 (PAYE)
Cyflog y Clerc - £173.60

Bydd Cynghorwyr Roger Davies a Maldwyn Lewis yn llofnodi'r sieciau uchod. **Clerc**

| | | |
|---|---|---|
| 11. | Materion Ardal | Gosodwyd y coed Nadolig yn eu lle penwythnos diwethaf, ond yn anffodus oherwydd storm Arwen, roedd sawl un wedi cael eu chwythu drosodd a bu'n rhaid eu codi eto, gan weithredu mesurau ychwanegol er mwyn sicrhau na fyddent yn cwympo eto. Gosodir goleuadau ychwanegol arnynt dros yr wythnos nesaf hefyd. Bydd Cyng. Julie Davies ac Elaine yn trefnu bod y goeden wedi'i gwneud o baledau pren yn cael ei gosod ym Maes-llyn. |

Estynnwyd cydymdeimlad â theulu Ieuan Tobias.

Materion i'w hadrodd ar CLIC:-
Arwydd ar goll yn SA44 5LH (Coedybryn)
Arwydd ar goll yn SA44 5QH (Fferm Glanllyn, Brongest)
Unwaith eto, ceir llifogydd ar y ffordd sy'n arwain o Gapel Hawen i Ben-parc (cyn y tro ger y sied goch).
Mae dŵr wyneb ar y ffordd fawr o flaen y lloches bws, a oedd wedi golygu y bu hi'n amhosibl i blant ysgol ddefnyddio'r lloches bws, oherwydd y byddai unrhyw draffig a fyddai'n gyrru trwy'r dŵr dwfn yn gwlychu unrhyw blant a fyddai'n sefyll yn y lloches bws.
Caiff y ddalfa graean ym Mrongest ei harchwilio.

Gosodwyd teclynnau Monitro Cyflymder yn Rhydlewis, ar naill ochr y Bont.

Roedd y Clerc wedi cael pris am 2 far ac am ysgythru Cadwyn y Cadeirydd gan y Gemyddion yn Aberystwyth. Cost y 2 far (Mark Davies 2020-2021) ac (Emyr Jones (2021-2022) a'r gwaith ysgythru fyddai £75. Bydd y Clerc yn cadarnhau gyda'r gemyddion y dylent fwrw ymlaen gyda'r gwaith. **Clerc**

| | | |
|---|---|---|
| 13. | Cyfarfod Nesaf. | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 4 IONAWR am 7.30 p.m. yn Neuadd Bentref Ffostrasol os bydd y sefyllfa o ran Covid yn caniatáu hynny. Os bydd y sefyllfa yn newid, trefnir cyfarfod Zoom ar yr un dyddiad ac ar yr un amser. |

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9.45 p.m.

| | | |
|---|---|---|
| 14. | Eitemau ar gyfer y Cyfarfod Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Buddiannau<br>Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid – Archwiliad<br>Diweddariad am Orchymyn/Llofnodwyr<br>Taliadau<br>Praesept 2022/2023<br>Cynllunio'r gyllideb – Diffibrilwyr (Bwlch-y-groes a Chlwb Pêl-droed Ffostrasol)<br>Materion Ardal<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 15. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 4 IONAWR, 2022** am **7.30 p.m.**<br>yn Neuadd Bentref Ffostrasol. (Gallai'r lleoliad newid os bydd y sefyllfa o ran Covid yn newid). |